

MANYLION SEMINARAU

SESIWN 1 : 10.00 – 10.45

OPSIWN 1 YSTAFELL 108	<p>Corffori SMART yn y dosbarth (Martyn Wilks – Steljes)</p> <p>Mae SMART yn ymestyn tu hwnt i fyrddau gwyn rhyngweithiol. Cewch weld sut mae meddalwedd Notebook yn gadael i chi gorffori technolegau eraill o SMART yn eich gwersi, megis system ymateb disgyblion a camera dogfen.</p>
OPSIWN 2 YSTAFELL 106	<p>Promethean mewn Addysg (Quentin Stokes)</p> <p>Edrych yn fanwl ar dechnolegau meddalwedd a chaledwedd Promethean, gan gynnwys Activexpression, Activinspire, a datblygiadau yng nghynnyrch Promethean (caledwedd a meddalwedd a Promethean Planet).</p>
OPSIWN 3 YSTAFELL 101	<p>GCaD Cymru – Trosolwg o'r Adnoddau a'r Lein, Sgiliau Meddwl ac Arfer Da (Dafydd Watcyn Williams)</p> <p>Diweddariad o ran yr adnoddau newydd sydd wedi ymddangos ar wefan GCaD Cymru yn ystod y misoedd diwethaf a golwg ar beth sydd ar y gweill. Byddwn hefyd yn rhoi sylw i ddatblygu sgiliau meddwl yn ôl gofynion y Fframwaith Sgiliau trwy gyfrwng yr adnoddau ac yn enghreifftio arfer da wrth ddefnyddio'r pecynnau yn y dosbarth.</p>
OPSIWN 4 YSTAFELL 102	<p>Defnyddio SIMS mewn Ysgol Gynradd (Robin Llywelyn Roberts)</p> <p>Bydd y cyflwyniad yn canolbwyntio ar astudiaeth achos Ysgol Y Graig, Llangefni gan roi sylw i'r meysydd canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cofnodi presenoldeb yn y dosbarth • Cofnodi ymddygiadau/llwyddiannau • Asesu a thracio cynnydd • AAY • Adroddiadau • Darlun cyflawn – Ysgol/Disgybl
OPSIWN 5 YSTAFELL 111	<p>iPad yn y dosbarth (Julian Coultas)</p> <p>Cyflwyno athrawon i ddefnyddio'r iPad yn y dosbarth. Bwriedir defnyddio ac 'archwilio, cynllunio, creu, a rhannu' model ar draws ystod o aps. Bydd y sesiwn yn edrych ar sut y gellir defnyddio'r iPad i gipio'r dysgu ac ochr yn ochr â TGCh draddodiadol. Edrychir hefyd ar hyblygrwydd y cit USB/camera ar gyfer cysylltu camerâu ac offer, a dewisiadau o ran symud ffeiliau i'r iPad ac ohono.</p>

MANYLION SEMINARAU

SESIWN 2 : 11.15 – 12.00

OPSIWN 1

YSTAFELL 108

Craffwyr – Creadigol, hwyllog, i bawb (Chris Brittan)

Sesiwn ymarferol i ddangos sut y gellir defnyddio craffwyr i gefnogi arferion dosbarth. Amryw o enghreifftiau ar sut i'w ddefnyddio mewn gwersi, gan gynnwys asesu gwaith disgyblion. Drwy edrych ar enghreifftiau go iawn a chlipiau fideo o waith ymchwil eang Cwmni Elmo, buan iawn y daw mynychwyr y gynhadledd i sylweddoli manteision craffwyr o ran gweddnewid y dysgu a'r addysgu. Ar ôl i chi weld y craffwr ar waith, fe fyddwch chi'n gofyn i chi'ch hun sut fyddai eich dosbarth yn gallu gwneud hebdo.

OPSIWN 2

YSTAFELL 106

Serif – Meddalwedd graffeg greadigol i'r dosbarth uwchradd (Ranjit Parekh)

Bydd Serif yn dangos sut y mae meddalwedd graffeg greadigol yn darparu adnoddau angenrheidiol i gyflawni amcanion creadigol i'r cwricwlwm CA2-4 - o ddylunio gwe hawdd, animeiddiadau cyflym, i greu fideos proffesiynol i waith prosiect. Bydd copi gwerthuso hefyd ar gael yn rhad ac am ddim (un copi i bob ysgol).

OPSIWN 3

YSTAFELL 101

EducationCity.com Adnoddau hwyllog a rhyngweithiol ar-lein i ysgolion cynradd (Simon Calderbank)

Cyflwyniad a chipolwg ar sut mae ysgol leol wedi bod yn defnyddio EducationCity.com. Braslun o'r cynnwys a'r adnoddau sydd ar gael gan gynnwys gweithgareddau hwyllog rhyngweithiol sy'n cyd-fynd â'r cwricwlwm, 'topic tools' penagored i'r dosbarth cyfan, ac adnoddau asesu a thracio. Ewch yn ôl i'ch ysgol a defnyddio'r adnoddau ar-lein yn rhad ac am ddim am 6 wythnos.

OPSIWN 4

YSTAFELL 102

Schoolcomms – anfon negeseuon e-bost a thestun o SIMS gyda chysylltiad cyflym â SIMS Attendance (Rosemarie Constantine)

Dangosir sut i:

- Anfon negeseuon e-bost a thestun at rieni, athrawon a disgyblion
- Anfon e- gardiau i annog ymddygiad dymunol
- Anfon negeseuon e-bost neu destun am absenoldeb, ac ysgrifennu ymateb yn ôl i *SIMS Attendance*
- Anfon negeseuon e-bost o unrhyw le yn y byd gan ddefnyddio *Mobile Messenger*

OPSIWN 5

YSTAFELL 111

Defnyddio Clicker 5 i gefnogi llythrennedd (Phil Hackett)

Mae'r cyflenwr blaenllaw Crick Software wedi ennill gwobrau am ei feddalwedd sy'n annog dysgwyr i feithrin eu sgiliau llythrennedd ar draws y cwricwlwm. Defnyddir Clicker mewn 90% o ysgolion cynradd ym Mhrydain, ac mae'n cymhell plant i ddechrau mynd ati i ysgrifennu. Mae athrawon yn defnyddio adnoddau 'Powered by Clicker' i gael gafael ar ddeunyddiau cwricwlaidd i'w holl ddysgwyr.

MANYLION SEMINARAU

SESIWN 3 : 1.15 – 2.00

OPSIWN 1

YSTAFELL 108

2Simple Ysbrydoli plant, ymestyn y dysgu, ennyn diddordeb rhieni (Andy Hopkins)

Mae www.purplemash.com eisoes yn cael ei ddefnyddio gan Awdurdodau Lleol ac ysgolion ledled Cymru – dyma'r lle creadigol newydd ar-lein i ysgolion cynradd. Yma cewch weld dros 300 o brosiectau *Publish*, *Creative Tools Suite*, prosiectau *2Paint*, *Simple City*, *2Type*, gemau mathemateg, *2Investigate*, gemau *2DIY 3D* a llawer mwy! Ceir adnoddau Cymraeg. Bydd pob disgybl hefyd yn cael lle personol ar-lein i gadw a gweld gwaith o'r ysgol ac o'r cartref.

OPSIWN 2

YSTAFELL 106

Microsoft Cyfrifiaduro 'Cwmwl' ac Arbed Costau mewn Addysg (Mark Reynolds)

Beth yw ystyr 'Cyfrifiaduro Cwmwl' ("*Cloud Computing*") Dangos sut y gellir cyfuno'r dechnoleg newydd hon â meddalwedd lleol er mwyn creu amgylchedd dysgu cyfoes am bris isel iawn. Cewch wybod sut y gall eich ysgol chi ddefnyddio system e-bost *Cloud* a rhaglenni Office yn Live@Edu yn rhad ac am ddim, yn ogystal ag arbed arian sylweddol ar drwydded Microsoft gyda'r cynllun *Enrolment for Education Solutions* newydd.

OPSIWN 3

YSTAFELL 101

Ennyn diddordeb eich disgyblion efo adnoddau digidol symbylol Espresso (Chris Davies)

Cewch weld sut mae cyfuniad Espresso o fideos, gweithgareddau rhyngweithiol a llwybrau dysgu yn arwain at ddisgyblion cynradd yn dysgu'n annibynnol. Mae modd cysylltu adnoddau Espresso â'r bwrdd gwyn rhyngweithiol, a dewis ac addasu deunyddiau yn ôl iaith, gallu ac oed disgyblion. Mae'r adnoddau parod yn rhoi lle i waith personol ac unigol. Gallwch ddefnyddio '*Pupil Home Access*' (ac unrhyw Lwyfan Dysgu) i ennyn diddordeb rhieni.

OPSIWN 4

YSTAFELL 102

Trosolwg o SIMS DISCOVER (Robin Llywelyn Roberts)

Cyflwyniad sy'n arddangos meddalwedd newydd SIMS ar gyfer dadansoddi data megis:

- Asesu
- Presenoldeb
- Agweddau Bugeiliol
- Grwpiau Deinamig

OPSIWN 5

YSTAFELL 111

Defnyddio 'I Can Animate' ac 'I Can Present' i ysbrydoli ac ennyn diddordeb plant yn y dosbarth (Roger Young)

'I Can Animate 2' newydd ac 'I Can Present' anhygoel. Cewch weld pa mor hawdd ydynt i'w defnyddio yn eich dosbarth chi i ennyn diddordeb myfyrwyr mewn ffyrdd newydd a chyffrous. Rydym ni'n darparu'r cyfrwng, a'ch myfyrwyr chi yn defnyddio eu dychymyg a'u creadigrwydd. Gyda'n gilydd, gallwn ysbrydoli, hybu ac addysgu.

MANYLION SEMINARAU

SESIWN 4 : 2.15 – 3.00

OPSIWN 1

YSTAFELL 108

Moodle: Systemau Rheolaethol Cynnal a dyfodol Amgylcheddau Dysgu Rhith (Aled Williams)

Cyflwyniad ar systemau rheolaethol Cynnal, gan gynnwys System Hunan Arfarnu Ar-lein, Cynllun Datblygu Ysgol Ar-lein a Systemau Canfod Barn Disgyblion a Rhieni. Byddwn hefyd yn rhoi sylw i ddatblygiadau diweddaraf a dyfodol ADRh gan gynnwys Mewnwyd Sirol, Cyrsiau Cyfranogol ar rwydwaith ADRh ynghyd a a diweddariad technegol system Moodle.

OPSIWN 2

YSTAFELL 106

Defnyddio adnoddau Textease gyda phrosiectau trawsgwricwlaidd, eu rhannu a'u hymestyn i'w defnyddio yn y cartref (Danielle Markland)

Gan fod pob ysgol gynradd yn y sir bellach wedi cael cyfres adnoddau *Textease*, bydd y seminar hon yn edrych ar rai o'r adnoddau o blith y naw, a sut i'w defnyddio ar draws y cwricwlwm. Edrychir ar ffyrdd o ymestyn eu defnydd yn y cartref i gynnwys rhieni, a dod â gwaith yn ôl i'r dosbarth gan ddefnyddio *Honeycomb* i wneud hyn.

OPSIWN 3

YSTAFELL 101

TGCh mewn Gwyddoniaeth – Y Ffordd Hawdd (Iain Davison)

Mae'r ddyfais law "Vision" newydd, gyda sgrin gyffwrdd, ar gyfer monitro a recordio yn golygu ei bod hi bellach yn haws o lawer defnyddio TGCh mewn gwyddoniaeth. Nid oes angen cyfrifiadur. Mae modd cysylltu'r sgrin graffigol lawn yn syth â thaflunydd neu argraffydd (neu gyfrifiadur os dymunir). Gweddnewidiwch y ffordd mae disgyblion yn dysgu gyda graffeg fyw ar flaenau'u bysedd. (Ar gael yn fuan yn ddwyieithog).

OPSIWN 4

YSTAFELL 102

Defnyddio SIMS mewn Ysgol Gynradd (Robin Llywelyn Roberts)

Bydd y cyflwyniad yn canolbwyntio ar astudiaeth achos Ysgol Y Graig, Llangefni gan roi sylw i'r meysydd canlynol:

- Cofnodi presenoldeb yn y dosbarth
- Cofnodi ymddygiadau/llwyddiannau
- Aseu a thracio cynnydd
- AAY
- Adroddiadau
- Darlun cyflawn – Ysgol/Disgybl

OPSIWN 5

YSTAFELL 111

iLife yn y dosbarth (Julian Coultas)

Manylion i ddod!